OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1990

## Rheoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015

**Diwygio Rheoliadau Tocio Cynffonnau Cŵn Gwaith (Cymru) 2007**

**16.** Yn lle paragraff (1)(b) o reoliad 5 o Reoliadau Tocio Cynffonnau Cŵn Gwaith (Cymru) 2007(**1**) rhodder—

"(b) gyda microsglodyn—

(i) sydd â rhif unigryw sy'n cynnwys cod y gwneuthurwr;

(ii) sy'n cydymffurfio â safon ISO 11784:1996 o safonau'r Sefydliad Safonau Rhyngwladol ar gyfer microsglodion;

(iii) sy'n cydymffurfio â'r cyfan o safon ISO 11785:1996 o safonau'r Sefydliad Safonau Rhyngwladol ar gyfer microsglodion ac eithrio Atodiad A; a

(iv) sy'n ymateb i drosdderbynnydd sy'n gweithredu ar 134.2 cilohertz ac yn cydymffurfio â'r protocol FDXB a bennir yn y safonau ISO 11784:1996 ac 11785:1996."

(**1**) O.S. 2007/1028 (Cy. 95).